# Astudiaeth Achos 1 – Andrew Wilkinson



Helô, fy enw i yw Andrew. 18 mlynedd yn ôl cefais fy mharlysu o'r frest i lawr o ganlyniad i wrthdrawiad traffig ffordd. Cyn fy namwain, roedd gennyf swydd gorfforol y tu allan fel sgaffaldiwr, ac roeddwn wrth fy modd. Gan nad oeddwn yn gallu gwneud hyn mwyach euthum ati i wirfoddoli yn yr ysbyty asgwrn cefn lle y bûm yn adfer, a rhoddais gynnig ar nifer o gampau gwahanol. Roeddwn yn rhagori digon ar daflu gwaywffon i ddod yn rhan o sgwad Cymru a chynrychioli Prydain ym mhencampwriaethau'r byd. Yna cwrddais â'm partner, ac mae gennym ddau blentyn erbyn hyn. Roeddwn yn dad a oedd yn gofalu am y cartref a'r teulu, ac roeddwn hefyd yn gwirfoddoli ar gyfer elusennau asgwrn cefn yn helpu eraill i addasu i'w bywydau newydd yn defnyddio cadair olwyn.

Gyda'm mab ieuengaf yn dechrau yn yr ysgol yn llawn-amser, roeddwn am fynd yn ôl i weithio. Heb unrhyw hanes o weithio ers nifer o flynyddoedd, a heb unrhyw gymwysterau, ymwelais â thîm Pontydd i Waith. Cefais apwyntiad cychwynnol gydag Aled, a fu'n trafod opsiynau a oedd ar gael ac a'm atgyfeiriodd at Jaki, a fyddai'n Diwtor Cymorth Cyflogaeth i mi. O'r dechrau, gofalodd Jaki fy mod yn teimlo'n gyfforddus a rhoddodd yr hyder i mi gredu ynof fy hun. Neilltuodd amser i siarad am fy niddordebau a'r cyrsiau gwahanol a oedd ar gael. Helpodd Jaki fi i lunio fy CV hefyd, er mwyn paratoi ar gyfer gwneud cais am swyddi. Deuthum o hyd i swydd yr oeddwn yn teimlo fy mod yn addas ar ei chyfer, ac roeddwn yn ddigon ffodus i gael fy ngwahodd i gyfweliad. Yna dechreuais banicio!! Ar ôl siarad â Jaki am fy ofn, aeth ati i dawelu fy meddwl a dweud wrthyf am beidio â mynd i banig, ac y byddai'n fy helpu i baratoi ar gyfer y cyfweliad. Cefais alwad gan Jaki bob dydd yn y cyfnod cyn fy nghyfweliad, yn darparu senarios chwarae rôl. Rhoddodd Jaki hwb i'm hunan-barch, a rhoddodd yr hyder i mi gredu mai fi oedd y dyn ar gyfer y swydd. Bythefnos yn ddiweddarach, cefais yr alwad ffôn yr oeddwn yn aros amdani – roeddwn wedi cael y swydd!! Roeddwn yn gegrwth fy mod wedi llwyddo. Roeddwn yn gwybod y byddwn yn gallu gwneud y swydd, ond y cymorth a'r gefnogaeth a gefais gan Jaki a'm helpodd i'w sicrhau. Byddaf bob amser yn ddiolchgar i Jaki, a hoffwn ddweud wrth unrhyw un sy'n dymuno i archwilio ei opsiynau am gysylltu â'r tîm Pontydd i Waith. Gallai newid eich bywyd. Mae wedi newid fy mywyd i, yn bendant.

Ychwanegodd Jaki Southgate:

“O'r cyfarfod cyntaf ag Andrew, roedd yn amlwg bod ganddo eisoes y penderfyniad, y sgiliau a'r rhinweddau eithriadol i ysbrydoli a chymell eraill. Roedd yn wych clywed ei stori a dysgu am y modd yr oedd wedi addasu a defnyddio ei daith i leihau'r stigma sy'n

gysylltiedig ag anabledd a diweithdra mewn modd cwbl anhunanol, gan ddangos i eraill ei bod yn bosibl cyflawni eich nodau os ydych yn barod i ymrwymo iddynt!

Mae gan Andrew agwedd gadarnhaol yn ei fywyd personol a'i fywyd proffesiynol, ac weithiau gall gymryd amser i feithrin hyder a hunan-gred. Cefais fwynhad llwyr wrth weithio gydag Andrew i gyflawni ei nod terfynol o sicrhau gwaith.”